


# Prosiect Plastig Untro yn Labordai Microbioleg ICC – Atodiad L – Astudiaethau Achos

**Fel rhan o adroddiad terfynol y prosiect, cyflwynodd Revolution-ZERO bedair astudiaeth achos ar asesu a lleihau plastig untro. Rhennir y rhain yn dudalennau ar wahân i'w rhannu'n unigol.**

Er mwyn ategu ein dealltwriaeth o effaith allyriadau a chyfathrebu gwell, cynhwysir tabl $CO_2$e ar gyfer sefyllfaoedd go iawn.

**Allyriadau Cyfatebol**

| Gweithgaredd | $CO_2$e |
|---|---|
| Awr o ddefnyddio gliniadur effeithlon | 10 g[1] |
| Golchi llwyth dillad ar 40C, a'i sychu mewn peiriant sychu dillad | 2 kg[1] |
| Anadlydd powdr sych (oddeutu 200 dos) | 4 kg[2] |
| Bwlb ynni isel 5-wat am flwyddyn | 15 kg[1] |
| Llundain i Glasgow ac yn ôl (trên) | 64 kg[1] |
| Defnyddio ffôn clyfar (defnyddio 195 munud y dydd y flwyddyn ar gyfartaledd) | 69 kg[1] |
| Llundain i Glasgow ac yn ôl (car bach petrol ac effeithlon) | 237 kg[1] |
| Anadlydd dos mesuredig (oddeutu 200 dos) | 100 kg[2] |
| Ynysu atig (haen allanol tŷ sengl) | 400 kg[1] |
| Gosod clun newydd neu lawdriniaeth pen-glin | 1 tunnell[1] |
| Llawdriniaeth ddargyfeiriol ar y galon | 2.3 tunnell[1] |
| Tŷ a adeiledir o'r newydd (tŷ teras tair ystafell wely, brics a morter) | 32 tunnell[1] |
| Gosod tyrbin gwynt 100-kW (arbed 2619 tunnell ar ôl 20 mlynedd) | 134 tunnell[1] |

[1] Berners-Lee, M 2010, *How Bad Are Bananas?*
[2] https://www.nice.org.uk/news/article/nice-encourages-use-of-greener-asthma-inhalers

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

Revolution-ZERO
More effective, more economic, more sustainable

# Astudiaeth Achos 3: Ailddefnyddio Masgiau

Mae'r drydedd astudiaeth achos yn ymwneud â'r cam nesaf ar y rhestr adnoddau sef ailddefnyddio eitemau. Mae gan y prif sefydliad brofiad helaeth o hyn yn llwyddo yng Nghymru eisoes, ar ôl iddo gwblhau astudiaeth ac adroddiad ffurfiol ym mis Mawrth 2022. Mae'r gostyngiad posibl mewn gwastraff plastig yn sylweddol a hynny o gofio y gellir ailddefnyddio masgiau hyd at 40 o weithiau, eu haddasu at wahanol ddibenion ar ddiwedd eu hoes clinigol a'u hailgylchu ar ôl hynny, sy'n osgoi gwastraff ac yn arbed carbon hefyd. **Yr arbedion carbon arferol a geir drwy newid o fasg untro i fasg y gellir ei ailddefnyddio yw 10g i bob masg, ac arbedion gwastraff o 3.5g**.

Mewn gweithdy, amcangyfrifodd staff Iechyd Cyhoeddus Cymru y nifer o fasgiau a ddefnyddir mewn labordai bob blwyddyn.
Defnyddiodd Revolution-ZERO yr amcangyfrif hwn i gyfrifo'r allyriadau ar gyfer pob masg a ddefnyddir mewn blwyddyn, a dangosir hynny yn y tabl isod.

**Arbedion allyriadau a gwastraff drwy newid i fasgiau amldro**

| Cynnyrch | Swm | Cyfanswm y Pwysau (kg) | Cyfanswm $CO_2$e (kg) | Arbedion carbon (kg) | Arbedion gwastraff (kg) |
|---|---|---|---|---|---|
| Masgiau | 365,000 | 1278 | 6,496 | 3650 | 1278 |

Gwnaethom amcangyfrif fod 365,000 o fasgiau wedi'u defnyddio mewn labordai ledled Cymru, a **gallai newid i fasgiau amldro greu arbedion carbon o 3650 kg ac arbedion gwastraff o 1278 kg yn flynyddol**. Mae'n rhaid parhau i fireinio economeg hyn, ond mae hyn yn darparu astudiaeth achos lwyddiannus a defnyddiol, y gellir ei sefydlu yn y dyfodol agos.